

Nodiadau (llyfryddol, gan
fwyaf) ar iaith a dosbarth
cymdeithasol

Immanuel Wallerstein, *World-systems Analysis: An Introduction* (2007) [hwn yw'r cyflwyniad cryno gorau ac mae'n cynnwys llyfryddiaeth anodiadol ardderchog]

- I drafod datblygiad cyfalafiaeth mewn rhanbarth rhaid gweld lle'r rhanbarth yn y genedl-wladwriaeth a lle'r genedl-wladwriaeth o fewn yr economi gyfalafol fyd-eang. Dyma bersbecif y *world-system* neu'r *world-economy* yng ngwaith Wallerstein.
- Datblygiad anwastad rhanbarthau. Hegemoni'r craidd (economaidd a gwleidyddol)
- Y craidd a'r cyrion, y naill yn darparu cyfalaf a'r llall yn darparu'r deunydd crai/llafur rhad
- Mudiadau gwrth-systemig (cymdeithasol a chenedlaethol)


Michael Hechter, *Internal Colonialism: The Celtic Fringe in British National Development* (1975)

- Datblygiad y genedl-wladwriaeth a threfedigaethu mewnol
- Colli sofraniaeth a datblygiad economaidd dibynnol (polisiau gwleidyddol yn cael eu llunio y tu allan i'r ardal)
- Rhaniad diwylliannol (ieithyddol, yn ein hachos ni) o lafur
- Dan yr amgylchiadau, hunaniaeth ethnig yn gryfach nag ymwybyddiaeth o ddosbarth cymdeithasol
- Ffracsiynu dosbarth

Pierre Bourdieu, *Ce que parler veut dire* (1982) [cyfieithiad a helaethiad: *Language and Symbolic Power* (1991)]

- Cyfalaf – Economaidd, Diwylliannol, Cymdeithasol, Symbolaidd
- Habitus – Y cyflyru sy'n gysylltiedig â dosbarth neilltuol ac amodau neilltuol (magwraeth, sefyllfa, etc.) yn cynhyrchu system o dueddiadau a fewnolir gan yr unigolyn. *Structure structurante*.
- Trais symbolaidd a gorthrwm (domination)
- Hierarchiaeth a chyfansoddiad grwpiau cymdeithasol sy'n pwyso ar fwy na rhesymeg economaidd (*la distinction*)

Mapio cymdeithas yn ôl safle cymdeithasol yng ngwaith Bourdieu



Delyth Morris a Glyn Williams, *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (2000)

Delyth Morris, 'Datblygiad Economaidd Anwastad a'r Rhaniad Diwylliannol o Lafur' yn Brooks a Roberts goln. *Pa beth yr aethoch allan i'w achub?* (2013)

- Rhwydweithiau cymdeithasol a grwpiau iaith a rhan iaith mewn ffurfio haenau cymdeithasol
- Ffracsiynu a Cynghreirio dosbarth
- Tangynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg yn yr haenau cymdeithasol uchaf
- Rhaniad cyhoeddus/preifat
- 'Yn groes i'r hyn a haerwyd gan ambell i wleidydd dros y blynyddoedd, gellir dadlau fod y 'cadernid ethnig' a amlygwyd yn yr ymchwil hwn yn ymateb rhesymegol i ddosbarthiad anwastad o adnoddau economaidd a pharhad y rhaniad diwylliannol o lafur' Delyth Morris, 2013 t.94.

Mewn dadlennol o siaradwyr Cymraeg a Glyn Williams ddarlun dadlennol o siaradwyr Cymraeg a phobl a anwyd y tu allan i Gymru yn ôl grŵp sosio-economaidd, a oedd yn dangos fod y rhai a anwyd y tu allan i Gymru yn cael eu gorgynrychioli yn y grwpiau sosio-economaidd uchaf yng Ngwynedd.¹⁵ Yn dilyn hynny, dangosais innau ddarlun tebyg gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 1991.¹⁶ Y gwahaniaeth mwyaf rhwng ffigyrau 1981 a 1991 oedd presenoldeb uwch o bobl a anwyd tu allan i Gymru yng ngweithlu Gwynedd erbyn 1991. Yn 2001, gwelwyd y patrwm cyffredinol hwn yn parhau, gyda siaradwyr Cymraeg (a ffurfiai 69% o'r boblogaeth yn ôl cyfrifiad y flwyddyn honno) yn parhau i gael eu tangynrychioli yn y dosbarthiadau uwch:

Siaradwyr Cymraeg yn ôl grwpiau dosbarth cymdeithasol, Gwynedd 2001¹⁷

Dosbarth cymdeithasol	Siarad Cymraeg	Gor/tan gynrychiolaeth siaradwyr Cymraeg
1. Rheolwyr ac uwch swyddogion	54%	- 15%
2. Proffesiynol (uwch)	68%	- 1%
3. Proffesiynol (is) a thechnegol	67%	- 2%
4. Gweinyddu a Chlercyddol	77%	+8%
5. Crefftau Sgil	75%	+6%
6. Gwasanaethau Personol	75%	+6%
7. Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmer	67%	+2%
8. Proses, gweithredwyr peiriannau	77%	+8%
9. Swyddi Elfennol	71%	+2%

Mae dadansoddiad o ddiwydiannau ble y cyflogir siaradwyr Cymraeg yn dangos bod gorgynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg mewn amaethyddiaeth a'r sector gyhoeddus, a'u bod yn cael eu tangynrychioli yn y sector breifat, gan gynnwys twristiaeth, gweithgynhyrchu, gweithgareddau busnes, cyfanwerthu a manwerthu. Awgryma'r ffigyrau hyn y bydd cynlluniau Llywodraeth y Glymblaid yn San Steffan i dorri ar wariant cyhoeddus yn cael effaith fwy dwys ar siaradwyr Cymraeg na'r di-Gymraeg yng Ngwynedd:

Diwydiant y Gyflogaeth yng Ngwynedd, 2001¹⁸

Diwydiant y Gyflogaeth	Siarad Cymraeg	Gor/tan gynrychiolaeth siaradwyr Cymraeg
Gwestai ac arlwy	56%	-13%
Ystadau rhentu a gweithgareddau busnes	64%	-5%
Gweithgynhyrchu	67%	-2%
Cyfanwerthu, manwerthu, trin ceir	67%	-2%
Diwydiannau amrywiol eraill	70%	+1%
Trafnidiaeth, storio, cyfathrebu	71%	+2%
Iechyd a gwaith cymdeithasol	71%	+2%
Adeiladu	74%	+5%
Addysg	75%	+6%
Pysgota	76%	+7%
Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn	78%	+9%
Cyflenwi trydan, nwy, dŵr	79%	+10%
Cyfryngu ariannol	79%	+10%
Amaethyddiaeth, hela, coedwigaeth	83%	+14%
Mwyngloddio, chwarela	86%	+17%

Effaith ar y C

Mae'r brose
fawr ar yr iai
cymharol fy
yddau Ryfe
wedi dych
Ond ar d
1970au, g
chafwyd s
o'r sir. Yr
Gymraeg
o gynhy
y gymu
siaradw
yn gol
throsge
oedd
Cym
yn wi
Cym
Gyr
eu l
atg
iai
ar
d
C
y

Mae'r tabl hwn yn archwilio'r berthynas rhwng dosbarth cymdeithasol a throsglwyddiad iaith ar yr aelwyd drwy gyflwyno canran y plant dibynnol nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg ar aelwydydd lle gall o leiaf un oedolyn siarad Cymraeg yn ôl gradd gymdeithasol fras (yn seiliedig ar atebion y sawl y mae'r cartref yn ei (h)enw neu'r sawl sydd â'r incwm mwyaf). Cyfrifiad 2021.

	AB Galwedigaethau rheolaethol/gweinyddol/proffesiynol uwch a chanolradd / AB Higher and intermediate managerial/administrative/professional occupations	C1 Galwedigaethau goruchwyliol, clerigol a rheolaethol/gweinyddol/proffesiynol iau / C1 Supervisory, clerical and junior managerial/administrative/professional occupations	C2 Galwedigaethau crefftus / C2 Skilled manual occupations	DE Galwedigaethau lled-grefftus a heb sgiliau; di-waith a'r galwedigaethau isaf / DE Semi-skilled and unskilled manual occupations; unemployed and lowest grade occupations
Awdurdod Lleol / Local Authority				
Abertawe / Swansea	27%	35%	37%	44%
Blaenau Gwent	48%	48%	44%	58%
Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan	29%	34%	36%	41%
Caerdydd / Cardiff	20%	24%	25%	44%
Caerffili / Caerphilly	31%	34%	38%	51%
Casnewydd / Newport	38%	41%	35%	40%
Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot	32%	35%	35%	44%
Ceredigion	9%	13%	12%	21%
Conwy	30%	32%	24%	41%
Gwynedd	4%	7%	6%	11%
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil	35%	35%	40%	58%
Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend	44%	45%	53%	44%
Powys	29%	31%	27%	44%
Rhondda Cynon Taf	28%	34%	36%	45%
Sir Benfro / Pembrokeshire	28%	31%	29%	38%
Sir Ddinbych / Denbighshire	25%	33%	30%	44%
Sir Fynwy / Monmouthshire	39%	41%	34%	40%
Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire	13%	19%	19%	33%
Sir y Fflint / Flintshire	36%	45%	45%	48%
Torfaen	33%	30%	37%	47%
Wrecsam / Wrexham	37%	39%	36%	49%

Esgyrn sychion: nodyn byr ar sosioieithyddiaeth y Lydaweg

- Jean Le Dû ac Yves Le Berre, *Métamorphoses: Trente ans de sociolinguistique à Brest* (2019)
- Proffil siaradwyr Llydaweg: L1, hen, gwledig, prin mewn cyfalaf diwylliannol / L2 ifanc, trefol, mwy o gyfalaf diwylliannol
- Sectorau economaidd gweithgarwch siaradwyr L1 ac L2
- Adlewyrchir hyn yn yr iaith ei hun – geirfa, cystrawen, ffonoleg
- Oes yna belen grisial yma?

Tamaid i'w gnoi

- Pa mor wir yw'r hyn a ddisgrifir gan Morris a Williams heddiw?
- Meddyliwch am enghreifftiau o ymraniad y grwp iaith Cymraeg ar sail dosbarth.
- Sut mae effeithiolrwydd gweithrediad polisi iaith yn newid ar lefelau gwahanol drwy hierarchiaeth y gweithle?
- Oes yna raniad amlwg rhwng gweithleoedd Cymraeg cyhoeddus (lle mae polisi iaith) a phreifat (Cymraeg organig, dim polisi iaith)?
- Sut mae sector gweithgarwch economaidd yn cyflyru ein dealltwriaeth ni ein hunain o'r sefyllfa?